# Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol
## Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan

Llais Cenedlaethol
Pobl ag Anableddau Dysgu yng Nghymru

Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan

All Wales People First

The National Voice of People
with Learning Disabilities in Wales

## 2023/2024








**Dydd Iau 20fed Mehefin 2024**
**am 10:45am**
**yng Ngwesty Future Inn,**
**Caerdydd, CF10 4AU**

## Agenda
## Dydd Iau 20fed Mehefin 2024

| | | |
|---|---|---|
| **1** |  | **Croeso**<br>Tracy Austin a Sam Hall, Cadeirydd ac Is-Gadeirydd Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan. |
| **2** | | **Ymddiheuriadau am Absenoldeb**<br>Tracy Austin a Sam Hall, Cadeirydd ac Is-Gadeirydd Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan.<br><br>Rhestr o bobl na allent ddod i'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. |
| **3** |  | **Cofnodion a Materion yn Codi o'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a gynhaliwyd ar 9fed Ionawr 2024**<br>Tracy Austin a Sam Hall, Cadeirydd ac Is-Gadeirydd Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan. |
| **4** |  | **Uchafbwyntiau Adroddiad Blynyddol 2023/2024**<br>Joe Powell, Prif Weithredwr. |

| | | |
|---|---|---|
| 5 |   | **Cwestiynau ac Atebion**<br>Gall aelodau ofyn cwestiynau am yr Adroddiad Blynyddol. |
| 6 |   | **Yr Adroddiad Cyllidol**<br>Victoria Sidwell-Brown, Rheolwr Busnes a Chyllid, Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan. |
| 7 |   | **Cwestiynau ac Atebion**<br>Gall aelodau ofyn cwestiynau am yr Adroddiad Cyllidol. |
| 8 |   | **Mabwysiadu'r Adroddiad Blynyddol**<br>Aelodau i fabwysiadu'r adroddiad blynyddol. |
| 9 |   | **Ymddeoliadau o Fwrdd y Cyfarwyddwyr**<br>Rhaid i draean o'r Bwrdd ymddeol o'r Bwrdd ym mhob Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Bydd Kay Williams a James Tyler yn ymddeol eleni.<br>Gallant ofyn am ail-ymuno â'r Bwrdd. |
| 10 |  | **Y Cyngor Cenedlaethol 2023/2024**<br>Tracy Austin, Cadeirydd y Cyngor Cenedlaethol. |

| | | |
|---|---|---|
| **11** | <br> | **Newidiadau i'n Memorandwm Cydgymdeithasu a'n Herthyglau neu reolau**<br>• Mae rheolau Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan ar hyn o bryd yn dweud y dylai ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol fod â 10% o aelodau'n bresennol i fod â chworwm. Rydym am newid y rheolau i ddweud y dylai'r cworwm newydd fod yn 5%.<br><br>• Mae ein rheolau ar hyn o bryd yn dweud y dylai Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan gynnal Cynghorau Rhanbarthol fel rhan o'u rheolau. Rydym am gynnig bod Cynghorau Rhanbarthol yn cael eu tynnu allan o'r rheolau.<br><br>Gall aelodau bleidleisio ar y newidiadau hyn. |
| **12** |  | **Unrhyw fater arall** |
| **13** |  | **Diolch a Diwedd y Cyfarfod**<br>Tracy Austin, Cadeirydd y Cyngor Cenedlaethol. |




# Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol PGCC a gynhaliwyd yng Nghanolfan Busnes Conwy, Cyffordd Llandudno ar 9fed Ionawr 2024.

Y CCB ar 9fed Ionawr oedd yr eildro i ni geisio cynnal y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Y tro cyntaf ar 16eg Hydref 2023, ni ddaeth digon o aelodau i'r cyfarfod fod â **chworwm**.

Mae rheolau mudiad yn dweud faint o bobl sydd angen bod mewn cyfarfodydd. Gelwir y nifer hwn yn **gworwm.** Os oes digon o bobl, mae **cworwm** ar gyfer y cyfarfod.

**Pwy oedd yn y cyfarfod:**
Staff Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan: Joe Powell, Tracey Drew, Gerraint Jones Griffiths, Claire Morgan, Kelly Stuart a Victoria Sidwell-Brown.
Bwrdd Cyfarwyddwyr Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan: David Whittle, Paul Sutton

Cyfanswm o 32 aelod llawn. 19 wyneb-yn-wyneb a 13 ar Zoom.

Nid oedd cworwm yn y cyfarfod, ond roedd ein rheolau ar gyfer ail gyfarfodydd yn caniatáu i'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol fynd rhagddo.

*"Os nad oes cworwm yn bresennol yn y cyfarfod a ailgynullwyd o fewn pymtheg munud i'r amser a bennwyd ar gyfer dechrau'r cyfarfod, yr aelodau llawn sy'n bresennol ar yr adeg honno fydd y cworwm ar gyfer y cyfarfod hwnnw."*

## 1. Croeso



Croesawodd Cadeirydd y Cyngor Cenedlaethol, Tracy Austin bawb i'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar gyfer 2022-23. Eglurodd nad oedd digon o aelodau yn y cyfarfod ym mis Hydref pan geisiwyd cynnal y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, a bod angen aros 15 munud ar yr achlysur hwn, ac yna gallem fwrw ymlaen.




Gofynnodd Andrea Pugh, cynrychiolydd Gwynedd am i Agenda a Chofnodion y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol gael eu gosod ar ffurf Hawdd eu Darllen yn y dyfodol.

Ailddechreuodd y cyfarfod am 1:15pm

**2. Ymddiheuriadau am absenoldeb**


Ni chofnodwyd unrhyw ymddiheuriadau.

**3. Cofnodion a Materion yn Codi o'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a gynhaliwyd ar 7fed Mawrth 2023**




Cytunwyd bod y cofnodion yn gofnod cywir.
Ni chodwyd unrhyw faterion.

**4. Adroddiad Blynyddol 2022/2023**




Trafododd y Prif Weithredwr yr uchafbwyntiau o adroddiad blynyddol 2022/2023.

**5. Cwestiynau**




Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

## 6. Adroddiad Cyllidol ar gyfer 2022/23




Cyflwynodd y Rheolwr Busnes a Chyllid Victoria Sidwell-Brown yr adroddiad cyllidol i'r aelodau.

## 7. Cwestiynau




Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

## 8. Mabwysiadu'r Adroddiad Blynyddol




Pleidleisiodd 23 aelod (wyneb-yn-wyneb ac ar Zoom) i fabwysiadu'r adroddiad blynyddol.

## 9. Ymddeoliadau o Fwrdd y Cyfarwyddwyr




Mae ein rheolau'n dweud bod yn rhaid i draean o Fwrdd y Cyfarwyddwyr ymddiswyddo yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

Roedd yn ofynnol i Ruth Northway, David Whittle, Lee Ellery a Margaret Flynn ymddiswyddo o Fwrdd y Cyfarwyddwyr.
Diolchodd y Cadeirydd iddynt am eu gwaith caled.




Roedden nhw i gyd yn dymuno ail-sefyll. Pleidleisiodd yr aelodau o blaid bod pob un ohonynt yn ail-ymuno â'r Bwrdd.

Ruth Northway (pleidleisiodd 15 aelod)
Lee Ellery (pleidleisiodd 19 aelod)
David Whittle (pleidleisiodd 20 aelod)

Margaret Flynn (pleidleisiodd 17 aelod)

Llongyfarchodd y Cadeirydd hwy ar gael eu hail-ethol.

**10. Y Cyngor Cenedlaethol 2022/2023**



Darllenodd y Cadeirydd ei hadroddiad am yr hyn a gyflawnodd y Cyngor Cenedlaethol yn 2022-23. Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

**11. Newidiadau i'n Memorandwm Cydgymdeithasu a'n Herthyglau**




Gofynnwyd i aelodau bleidleisio ar 2 newid i reolau PGCC.




- Mae ein rheolau ar hyn o bryd yn dweud y dylai ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol fod ym mis Medi neu'n agos at fis Medi. Rydym am newid hyn fel y gellir cynnal y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar unrhyw adeg o'r flwyddyn. Cynhaliwyd pleidlais a phleidleisiodd 20 aelod (wyneb-yn-wyneb ac ar Zoom) i dderbyn y newidiadau.



- Mae ein rheolau ar hyn o bryd yn dweud y dylai cyfarfodydd fod wyneb-yn-wyneb. Rydym am newid hyn fel y gall aelodau gyfarfod a phleidleisio ar-lein ac wyneb-yn-wyneb. Cynhaliwyd pleidlais a phleidleisiodd 20 aelod (wyneb-yn-wyneb ac ar Zoom) i gymeradwyo hyn.

**12. Diwedd y Cyfarfod**




Diolchodd y Cadeirydd i'r Bwrdd, staff PGCC, cynrychiolwyr y Cyngor Cenedlaethol a Grwpiau Hunan-eiriolaeth am eu gwaith yn ystod y flwyddyn ac am fynychu'r cyfarfod. Daeth â'r cyfarfod i ben.